
## Albert y Crwban

# Albert a'r Gwynt




Awdur: Ian Brown
Darlunydd: Eoin Clarke
Oed: 3-5
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 250 x 250mm
Cyhoeddiad: Ebrill 2022
Pris: £7.99

## Themau

Bwyd
Y tywydd
Pryfed
Rhannu
Caredigrwydd

## Clawr

Trafodwch yr awdur – fe wnaeth ysgrifennu'r stori – Ian Brown

Trafodwch y darlunydd – fe wnaeth y lluniau – Eoin Clarke

(Gwybodaeth amdanynt ar dudalen 34).


Beth welwch chi ar y clawr?

Beth sy'n digwydd tybed?

Bethy w'r siap sbeiral ar y clawr? Trowynt yw hwn.

Pwy yw Albert?

(Gwybodaeth am Albert ar dudalen 35)




## Tudalen fewnol

Pwy sydd yma?

Beth sydd ganddo? Blodyn dant y llew.

Beth yw ei enw tybed?

Pa storïau neu benillion eraill sydd a chorrynod ynddynt?



## Tudalen 2 a 3

Ble ydyn ni yn y llun yma? Sut gwyddoch hyn?


Fedrwch chi weld y gwynt yn troi a throelli?

Ceisiwch wneud synau gwahanol y gwynt.

Dyma'r ardd – beth fyddwn yn gwneud yn yr ardd?

Crëwch gerddi bach i bryfed mewn hambyrddau.

*Albert a'r Gwynt* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 4 a 5


Beth sydd gan Albert i'w fwyta heddiw? A fedrwch chi enwi'r bwydydd?

O na! Beth sy'n digwydd i fwyd Albert?

Sut fyddech chi'n teimlo os fyddai eich bwyd yn chwythu i ffwrdd?

Fedrwch chi gyfri'r eitemau?

Peintiwch blat papur o'ch hoff fwydydd.



## Tudalen 6 a 7

Beth wnaeth chwythu i wyneb y wenynen? Deilen letys

Roedd y wenynen yn garedig i roi'r ddeilen nol i Albert.

Fuoch chi'n garedig at rywun? Beth wnaethoch chi?

Chwilotwch wybodaeth am sut mae gwenyn yn gwenud mêl a chwyr.

Darganfyddwch anifeiliaid a phryfed eraill sydd yn streipiog.



## Tudalen 8 a 9

Pwy welodd Albert nesaf?

Sut wnaeth y pry copyn ddal y bwyd? Yn ei we.

Chwilotwch wybodaeth am gorrynnod a'r gwahanol fathau o weoedd.




## Tudalen 10 a 11

Gwnaeth y falwoden lwyddo i ddal y tomato... yn ei eli.

Welwch chi ei gragen? Beth yw'r patrwm sydd arno?

Peintiwch batrymau sbeiralau.

Crëwch gêm darganfod a dyfalu beth sydd yn y glwp.




## Tudalen 12 a 13

Beth oedd yn bod ar y mwydyn? Glaniodd y moron ar ei ben.

Pa blanhigion sydd nes at y mwydyn? Meillion. Chwilotwch tu allan am blanhigion Meillion.

Mae Meillion pedair deilen i fod yn lwcus – pa bethau eraill sy'n cael eu hystyried yn lwcus – cathod du, pedol ceffyl.



## Tudalen 14 a 15

Welwch chi'r pryfed a'r ymlusgiaid?

Pa un ydych chi'n hoffi orau?

Sawl un sy'n hedfan?

Sawl un sy'n cropian?

Sawl un sy'n ymlusgo?

*Albert a'r Gwynt* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 16 a 17

Fe ddaethon nhw a phethau i Albert – beth oedd ganddynt?

Fe wnaeth y corryn a'r mwydyn  ddod ag…allwedd.

Pwy ddaeth a darn arian?

Beth wnaeth y corryn a'r lindys roi?

Crëwch blwch teimlo o wahanol eitemau.



## Tudalen 18 a 19

O na! Mae'r gwynt yn cryfhau.

Beth sydd wedi chwythu ar ben Albert?

Darllennwch stori arall sy'n cynnwys pants.




## Tudalen 20 a 21

Welwch chi be' wnaeth y pryfed lludw ddarganfod?

Ydych chi'n hoffi bwyta seleri?

Beth arall ydyn ni'n bwyta gyda seleri…salad.

Crëwch cebab salad ffrwythau.



## Tudalen 22 a 23

Dyma eitem salad arall - ciwcymbyr.

Pwy wnaeth gludo'r ciwcymbyr?  Y morgrug.

Sawl morgrugyn welwch chi?

Mae morgrug yn gweithio'n ddyfal ac yn helpu ei gilydd.

Gwyliwch glipiau o forgrug yn gweithio.




## Tudalen 24 a 25

Edrychwch ar Albert. Ble mae o nawr? Ar ben y bwyd.

Beth welwch chi yn y pentwr bwyd?

Chwaraewch gëmau cuddio'r eitem– cynnes, oer, berwi wrth agosau.

Crëwch pili palod o bapur a'u hongian i greu symudlun neu fel barcutiaid y tu allan.



## Tudalen 26 a 27

Welwch chi ffrindiau caredig Albert? Ymhle mae nhw?

Beth ydych yn meddwl mae Albert yn mynd i'w wneud?

Beth fyddech chi yn ei wneud i ddweud diolch?

*Albert a'r Gwynt* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 28 a 29

Beth sydd wedi digwydd?

Mae Albert wedi torri gwynt.

Welwch chi beth mae'r bwydydd yn sillafu?




## Tudalen 30 a 31

Pwy arall sy'n hedfan o gwmpas yr ardd?

Sawl peth fewdrwch chi gyfri?

Daliwch y gwynt mewn bag papur – eisteddwch mewn cylch ac adroddwch stori ble fuodd y gwynt.



## Tudalen 32 a 33


O diar – Fe wnaeth Albert ymddiheuro am dorri gwynt.

Beth mae'r wenynen yn ei wneud? Dal ei thrwyn.

Crëwch gêm arogli – dyfalu'r arogl neu gosodwch luniau o bethau sy'n arogli'n dda neu'n ddrwg ar siart.

Trafodwch beth sy'n digwydd yn y corff pan mae rhywun yn torri gwynt – y bwyd yn mynd drwy gwahanol rannau'r corff – y stumog, colyddyn ac yn y blaen.


Eglurwch bod torri gwynt yn bwysig i gadw'r corff yn iach.



## Tudalen 34 a 35

Gwybodaeth am yr awdur a'r darlunydd.

Gwybodaeth am grwbanod.




## Clawr cefn

Beth welwch chi?

Y broliant – disgrifiad byr o'r stori yw hwn.

Welwch chi'r côd – beth yw ei bwrpas? Eglurwch mai rhif arbennig ydyw.

Enw argraffwyr y llyfr yw – GRAFFEG.

Chwilotwch am lyfrau eraill gan - Graffeg.

Recordiwch y plant yn adrodd eu broliant eu hunain o wahanol lyfrau.

ALBERT:

**Albert Ben i Lawr**
ISBN 9781802580105

**Albert a'r Gwynt**
ISBN 9781802580112

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.